## BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWLLGOR CRAFFU ADFYWIO** |
| **PWNC:** | **PWLLGOR CRAFFU ADFYWIO - DYDD MERCHER, 15 MEDI 2021 DYDD MERCHER, 15 MEDI 2021** |
| **ADRODDIAD GAN:** | |

---

PRESENNOL: J. HILL (CADEIRYDD)

Cynghorwyr:
G. A. Davies (Is-gadeirydd)
M. Cook
P. Edwards
H. McCarthy
K. Hayden
J. Holt
W. Hodgins
J. C. Morgan
G. Paulsen
K. Rowson
B. Willis
L. Winnett

A:

| EITEM | PWNC | GWAITH |
|---|---|---|
| **No. 1** | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar gyfer y Cynghorwyr S. Healy ac M. Cross. | |

| | | |
|---|---|---|
| No. 3 | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| No. 4 | **CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR CRAFFU ADFYWIO**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Craffu Adfywio a gynhaliwyd ar 9 Mehefin 2021.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion. | |
| No. 5 | **PWYLLGOR CRAFFU ADFYWIO**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Adfywio a gynhaliwyd ar 30 Mehefin 2021.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion. | |
| No. 6 | **DALEN WEITHREDU – 30 MEHEFIN 2021**<br><br>Cyflwynwyd y Ddalen Weithredu yn deillio o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Adfywio a gynhaliwyd ar 30 Mehefin 2021.<br><br>*Mannau Gwefru Cerbydau Trydan*<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, cadarnhaodd Arweinydd Tîm Cyfleoedd Adfywio fod y Cyngor wedi derbyn dau gerbyd tacsi trydan. Mae trefniadau ar gyfer rheoli'r cerbydau'n cael eu datblygu ar hyn o bryd, ac unwaith y bydd hyn yn ei le byddai'r cerbydau'n barod i'w defnyddio. Dywedodd y Swyddog y byddai'n hysbysu Aelodau pan mae'r tacsis yn weithredol.<br><br>*Buddsoddiad Bwrdeisiol Cymunedol*<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Swyddog fod y ffi gweinyddiaeth yn swm unwaith yn unig.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i nodi'r Ddalen Weithredu. | |
| No. 7 | **CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR CRAFFU ADFYWIO**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Craffu | |

| | | |
|---|---|---|
| | Adfywio a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2021.<br><br>CYTUNWYD i gadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 8** | **<u>ADRODDIAD CYNNYDD AR Y CYNLLUN DATGARBONEIDDIO</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gyfarwyddwr.<br><br>Cyflwynodd y Rheolwr Gyfarwyddwr yr adroddiad cynnydd cyntaf ers mabwysiadu Cynllun Datgarboneiddio'r Cyngor a datgan Argyfwng Hinsawdd ar 24 Medi 2020. Mae'r Cynllun yn amlinellu sut y bwriadwn gyflawni ein hymrwymiad i'r uchelgais bod sector cyhoeddus Cymru yn cyflawni sero-net erbyn 2030. Mae'n amlinellu sut y gallem ostwng allyriadau'r Cyngor mewn naw cyfnod pontio, a amlygir yn adran 2.3 yr adroddiad.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr y gwnaed llawer o waith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i geisio sefydlu datgarboneiddio yn y ffordd yr ydym yn meddwl ac yn gweithredu fel sefydliad, ac mae crynodeb yn adran 2.4 yr adroddiad yn dangos fod yn dal lawer o waith i'w wneud er ein bod yn gwneud cynnydd da.<br><br>Aeth y Rheolwr Gyfarwyddwr wedyn drwy'r adroddiad a thynnu sylw at bwyntiau ynddo.<br><br>Gofynnodd Aelod a fyddai cyfle am gymorth ariannol gan WRAP i addasu ein fflyd a gwaith yn ein Canolfannau Ailgylchu.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr y gwnaed gwaith da dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac i'r Cyngor lwyddo cynyddu ei gyfraddau ailgylchu a bod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar yr agenda datgarboneiddio ac yn cael ei gydnabod gan Gynulliad Dinasyddion Newid Hinsawdd. Yn nhermau'r camau nesaf a datgarboneiddio ein fflyd, dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod WRAP yn hwylusydd, ac felly byddai unrhyw gyllid posibl yn dod gan Lywodraeth Cymru. Mae'n edrych ymlaen at gyhoeddi Cynllun Cymru Sero yn yr wythnosau nesaf i weld pa gefnogaeth ariannol y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei rhoi yn y Cynllun i'n helpu i gyflawni ei thargedau.<br><br>Cadarnhaodd Arweinydd Tîm Cyfleoedd Adfywio y gwnaed gwaith gyda Gwasanaethau Cymunedol i adolygu ein fflyd ac y cynhaliwyd dadansoddiad hefyd o gerbydau/technoleg sydd ar y farchnad ar hyn o bryd a fyddai'n addas i'r Fwrdeistref. Teimlai fod | |

| | | |
|---|---|---|
| | y Cyngor mewn sefyllfa dda i gyflwyno cynigion ac achos busnes pan ddaw cyllid ar gael.<br><br>Dywedodd Aelod ei fod yn falch gyda'r cynnydd a wnaed ers i'r Cynllun gael ei fabwysiadu gan y Cyngor a theimlai fod y Cyngor yn rhagweithiol a chanmolodd bawb a fu'n ymwneud â Chynulliad Dinasyddion Newid Hinsawdd Blaenau Gwent. Gofynnodd sut mae'r Cyngor yn bwriadu datblygu argymhellion y Cynulliad Dinasyddion.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod ymateb a brwdfrydedd swyddogion i gymryd rhan yn ardderchog. Rhoddir adroddiad maes o law ar ymateb y Cyngor i argymhellion y Cyngor a gelwir cyfarfod arbennig o'r Tîm Rheoli Corfforaethol ehangach i ystyried yr argymhellion ac edrych ar yr hyn a wnawn ar hyn o bryd a lle mae angen mwy o weithredu mewn ymateb i'r hyn mae ein preswylwyr yn ei ddweud wrthym. Mae gwaith hefyd yn cael ei wneud drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac ar y cyd ar draws y sector cyhoeddus ym Mlaenau Gwent ac mae'n hyderus y byddai'r gwaith yn rhoi canlyniadau da a chamau gweithredu ar gyfer y dyfodol.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at dechnoleg ynni adnewyddadwy a dywedodd fod y cwmpas oes bras ar gyfer fferm wynt tua 20 mlynedd. Gofynnodd beth fyddai'n digwydd i'r safleoedd hyn pan nad oeddent mwyach yn gweithio.<br><br>Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod hyn i gyd yn rhan o'r daith datgarboneiddio a bod gwaith yn cael ei wneud i adolygu strategaethau caffael i sicrhau y rhoddir ystyriaeth i'r effaith carbon wrth brynu nwyddau a gwasanaethau. O ran ffermydd gwynt, maent yn ffynhonnell werthfawr o ynni adnewyddadwy i Gymru ar hyn o bryd, fodd bynnag gall datblygiadau mewn technoleg olygu y gellir cyflawni ynni adnewyddadwy mewn gwahanol ffyrdd.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at y cyfyngiadau cynllunio sydd yn eu lle i ddiogelu adeiladau rhestredig ac effaith hyn wrth geisio datgarboneiddio'r adeiladau hyn.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol fod hyn yn her ac efallai y byddai'n rhaid i ddeddfwriaeth newid yn y dyfodol i fod yn gydnaws gyda'r agenda newid hinsawdd. Cymerwyd dull gweithredu pragmatig yng | |

| | | |
|---|---|---|
| | nghyswllt unrhyw waith a wnaed ar adeiladau rhestredig heb newid cymeriad yr adeilad, fodd bynnag ni fyddai rhai adeiladu yn cyrraedd sero carbon. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau am geisiadau cynllunio ar gyfer adeiladau rhestredig a chaiff pob safle ei ystyried yn unigol.<br><br>Gofynnodd Aelod os bwriedir dynodi tir o fewn Cynlluniau Datblygu Lleol ar gyfer plannu coed i helpu gostwng ein ôl-troed carbon a hefyd i helpu atal llifogydd a hefyd os ystyrir corsydd mawn.<br><br>Mewn ymateb cadarnhaodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod hyn yn cael ei ystyried fel rhan o ymateb y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gyda chamau gweithredu a ffrydiau gwaith penodol yng nghyswllt yr amgylchedd.<br><br>Yng nghyswllt corsydd mawn, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod y rhain yn adnodd bwysig wrth ddal carbon. Mae peth tir o fewn Blaenau Gwent a allai ddod yn gorsydd mawn ac yn y dyfodol gall fod angen ailystyried rhai o'n dyraniadau tir blaenorol o fewn y Cynllun Datblygu Lleol.<br><br>Gofynnodd Aelod sut y bwriedir cyfleu heriau sero-net i'r gymuned.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr mai un o ganlyniadau cadarnhaol y Cynulliad Dinasyddion Newid Hinsawdd oedd fod y gymuned yn barod ar gyfer yr her. Rhan o'n hymateb i'r Cynulliad yw defnyddio'r brwdfrydedd hwnnw a gweithio mewn partneriaeth i ddynodi camau gweithredu o hyn ymlaen.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a bod y Pwyllgor yn cefnogi cyflwyno'r adroddiad i'r Pwyllgor Gweithredol (Opsiwn 1). | |
| **No. 9** | **<u>ADRODDIAD PERFFORMIAD ADFYWIO A DATBLYGU</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol yr adroddiad gweithgaredd gwasanaeth blynyddol ar gyfer y cyfnod Ebrill 2020 i Gorffennaf 2021. Aeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol drwy'r adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo. | |

Cyfeiriodd Aelod at drafodaethau blaenorol yng nghyswllt yr Archwiliad Coffa a aeth drwy Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2020, a gofynnodd pryd y gellid disgwyl adroddiad ar hyn.

Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai'n ymchwilio.

Holodd Aelod arall am y canran cyfredol o anheddau ar rent o gymharu â pherchnogaeth cartrefi ac os mai mwy o dai cymdeithasol neu dai preifat sydd fwyaf o'u hangen yn y Fwrdeistref.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod sicrhau cydbwysedd yn allweddol wrth ddiwallu anghenion y gymuned a chael y cyfuniad cywir o gartrefi i ddiwallu'r anghenion hynny. Yn nhermau'r canran o anheddau rhent, dywedodd fod hyn tua 30% yn cynnwys landlordiaid cymdeithasol a rhent preifat. Cadarnhaodd y defnyddiwyd yr Asesiad Anghenion Marchnad Tai i ddynodi tueddiadau a gofynion sy'n dod trwodd, a bod galw ar hyn o bryd o bobl sydd eisiau symud i Flaenau Gwent a hefyd ar gyfer pobl sy'n dymuno symud lan yr ysgol eiddo sydd wedi ysgogi diddordeb gan ddatblygwyr tai preifat, fodd bynnag mae'n bwysig peidio colli golwg ar anghenion ein cymuned bresennol. Cadarnhaodd y byddai'r Asesiad Anghenion Tai Marchnad yn dod i'r Pwyllgor Craffu maes o law i sicrhau fod y cydbwysedd a'r dealltwriaeth gywir o alw y dyfodol gennym.

Dywedodd yr Arweinydd Tîm Cymunedau Cysylltiedig y byddid yn annog ymagwedd mwy cyfunol at ddatblygiadau tai newydd yn y dyfodol h.y. cymysgedd o gynnyrch rhent cymdeithasol a chanolraddol, a hefyd berchnogaeth cartrefi cost isel.

Gofynnodd Aelod hefyd faint o dai gwag hirdymor sydd yn y Fwrdeistref ar hyn o bryd.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod y ffigur hwn tua 800-900 annedd wag ar hyn o bryd. Mae nifer o gynlluniau i ostwng y ffigur hwn, e.e. llai o ostyngiad eiddo gwag, a hefyd mae rhaglen grantiau a benthyciadau prysur iawn yn ei lle i ddod ag anheddau gwag yn ôl i ddefnydd. Yn 2019/20 daeth 56 o anheddau yn ôl i ddefnydd, fodd bynnag mae'r rhif hwn yn llai yn ystod 2021 oherwydd adleoli staff mewn ymateb i bandemig Covid. Fodd bynnag, mae llai o anheddau gwag am gyfnod o 6 mis sy'n golygu

fod y gwaith sy'n mynd rhagddo yn y maes hwn yn fuddiol.

Mynegodd Aelod bryder am effaith y cynnydd rhent unedau busnes y Cyngor, oedd wedi arwain at i rai fusnesau adael y Fwrdeistref. Teimlai hefyd nad oedd yr unedau newydd yn Box Works wedi eu hysbysebu'n ddigonol.

Mewn ymateb dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai Aelodau yn gwybod y cyflwynwyd tâl gwasanaeth ar gyfer ein hunedau busnes er mwyn dod yn sefydliad mwy masnachol ac i reoli ein hunedau yn fwy effeithlon. Er bod hynny wedi arwain at gynnydd yn y rhent ar gyfer defnyddwyr, maent yn awr yn cael gwasanaeth gwell. Dywedodd fod cadw busnesau yn y Fwrdeistref yn hollbwysig ac er bod llawer o'n hunedau busnes wedi eu cynllunio ar gyfer busnesau bach newydd, disgwylid y byddent yn symud i unedau mwy wrth iddynt dyfu, ac mae ffocws y Cyngor ar sicrhau fod gennym ysgol o safleoedd addas ar gyfer busnesau, ond hefyd gymryd ymagwedd busnes wrth reoli ein hunedau.

Yng nghyswllt safle'r Box Works esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol nad yw'r Cyngor wedi cymryd meddiant o'r unedau gan y contractwr eto a rhagwelir y bydd hyn yn digwydd yn ystod yr wythnos nesaf. Roedd yn obeithiol y byddai'r galw yn cynyddu'n sylweddol yn ystod yr wythnosau nesaf.

Cyfeiriodd Aelod arall at adnewyddu Capel y Drindod a mynegodd bryder y byddai symud y Llyfrgell i'r adeilad ynghyd â'r cynlluniau ar gyfer siop gymunedol a chaffe yn hen adeilad y llyfrgell yn tynnu pobl ymaith o ganol y dref. Roedd hefyd yn edrych ymlaen at adnewyddu Monwel a gofynnodd os byddai'n bosibl cyflwyno'r cynllun ynghynt.

Yng nghyswllt safle Monwel, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol mai'r bwriad yw y byddai'r cynllun wedi ei gwblhau ac ar agor i fyfyrwyr ym mis Medi 2022. Roedd hyn yn amserlen dyn oherwydd yr ailwampio sylweddol i gyrraedd y nodau uchel ar gyfer y safle.

Yn nhermau'r cynigion ar gyfer hen Lyfrgell Abertyleri, dywedodd fod y siop gymunedol a'r caffe yn fwy o gyfleuster ategol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r ganolfan hyfforddiant.

Dywedodd Aelod fod yr adroddiad yn dystiolaeth o'r gwaith da a gaiff ei wneud o fewn yr Adran. Fodd bynnag, dywedodd ei fod yn

brin o fanylion yng nghyswllt cyflogadwyedd, o ran nifer y bobl a gyflogir yn lleol a hefyd bod cynlluniau ar waith o fewn y Bwrdeistref i gael pobl i waith. Dywedodd fod nifer o brosiectau drwy'r sector gwirfoddol a phartneriaid a'u gwaith wrth gefnogi'r Fwrdeistref a chyfleoedd cyflogaeth y dylid eu hamlygu yn yr adroddiad wrth symud ymlaen.

Cytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y dylid cynnwys hyn wrth symud ymlaen.

Dywedodd Aelod fod y bont dros Lyn Cwmcelyn angen ei thrwsio a gofynnodd am ei chynnwys ar y Flaenraglen Gwaith ar gyfer y Pwyllgor Craffu perthnasol gan ei fod yn rhoi dolen hanfodol i'r ardaloedd o fewn y gymuned.

Mynegodd yr Aelod hefyd bryder nad oedd y man gwefru cerbydau trydan yn Blaenau yn cael ei ddefnyddio.

Mewn ymateb dywedodd y Rheolwr Tîm Cyfleoedd Adfywio ei bod yn bwysig fod pob ardal o fewn y Fwrdeistref yn cael eu cynnwys o fewn y prosiect. Mae'r lleoliadau yn seiliedig ar ragolwg defnydd, ac roedd defnydd ar draws y rhan fwyaf o'r mannau gwefru yn dda. Fodd bynnag, byddai mwy o waith yn cael ei wneud i hyrwyddo'r ddarpariaeth, ond gall fod perchnogaeth cerbydau trydan yn is yn Blaenau a lleoliadau eraill yn fwy amlwg ac mewn lleoliadau prysurach.

Cyfeiriodd Aelod arall yn ôl at ailwampio Capel y Drindod a dywedodd fod angen ymgynghoriad pellach. Gwyddai fod llawer o breswylwyr yn gwrthwynebu'r cynigion i symud y ddarpariaeth llyfrgell o adeilad pwrpasol a gwneud gwaith ailwampio helaeth yng Nghapel y Drindod er mwyn symud y llyfrgell. Cyfeiriodd hefyd at yr archfarchnad gymunedol a dywedodd y byddai'r cynlluniau ar gyfer yr adeilad, dan y weinyddiaeth flaenorol, wedi rhoi adnodd ardderchog yn ystod y pandemig Covid ond bod yr adeilad bellach wedi bod yn wag nawr am 4 blynedd.

Mewn ymateb dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y cytunwyd ar y cynllun ar gyfer Capel y Drindod ac mae'n mynd ymlaen gyda buddsoddiad sylweddol gan Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo i ddod â'r adeilad yn ôl i ddefnydd ystyrlon.

Dilynodd trafodaeth a dywedodd Aelod fod y prosiect yn gyfle gwych i Abertyleri. Mynegodd Aelod arall bryder yr ymddangosai

| | | |
|---|---|---|
| | fod y costau ailwampio yn cynyddu, a gofynnodd am gostau presennol y prosiect.<br><br>Dywedodd Arweinydd Tîm Cyfleoedd Adfywio na fedrai roi'r ffigur gan fod y broses adolygu tendr yn mynd rhagddi ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae pandemig Covid wedi effeithio ar y ffigurau oherwydd cynnydd mewn costau adeiladu oherwydd diffyg deunyddiau ar gael. Byddai costau llawn yr ailwampio ar gael yn yr ychydig wythnosau nesaf.<br><br>Gofynnodd Aelod am i hyn gael ei amlygu fel pwynt gweithredu.<br><br>Cyfeiriodd Aelod arall at y ddolen rheilffordd i Abertyleri ac anghytunodd y byddai'r ddolen a chynnydd mewn trenau yn cynyddu nifer yr ymwelwyr yng nghanol y dref. Dywedodd hefyd nad yw trenau mwy aml yn gwarantu mwy o deithwyr, a mynegodd bryder y byddai rheilffordd Cwm Ebwy yn dod yn anhyfyw mewn blynyddoedd i ddod.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol yr amcangyfrifwyd fod nifer teithwyr yn 400k y flwyddyn pan gynhaliwyd y gwaith gwreiddiol i gyfiawnhau ailagor y rheilffordd, fodd bynnag yn dilyn agor roedd y nifer yn fwy na 700k. Roedd ein rhagolwg hefyd wedi rhagweld teithio o Lynebwy i Gaerdydd, fodd bynnag roedd nifer enfawr o deithiau o fewn y Cwm nad oedd yn y rhagolwg gwreiddiol. Dywedodd y byddai cynyddu'r amlder yn gwneud teithio o fewn y Fwrdeistref yn rhwyddach i bobl gael mynediad i swyddi ac ymweld â pherthnasau ac ati ac yn rhoi hyb trafnidiaeth cyhoeddus gref ar ymyl y dref.<br><br>Cyfeiriodd Aelod arall at yr ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd ar Faddondy Pen y Pwll Llanhiledd a'r ffaith fod y cyhoedd yn gwrthwynebu defnydd arfaethedig y safle ar gyfer tai. Gofynnodd os bwriedir cyflwyno cynnig amgen ac os y byddai'r Cyngor mewn sefyllfa i brynu'r tir heb y tai arfaethedig.<br><br>Mewn ymateb dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod yr adroddiad yn rhoi sylw i gynnydd ar brosiectau. Dywedodd y byddai adborth o'r ymgynghoriad ar Faddondy Pen y Pwll yn cael ei ystyried i ddeall natur y pryderon hynny a'r ffordd orau i'w trin.<br><br>Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaeth Busnes ac Adfywio bod nifer o ymgynghoriadau ar y gweill i barhau'r gwaith hwn sy'n sylfaenol i ddatblygiad y safle er mwyn sicrhau cynllun y gellid ei gyflawni i | |

| | | |
|---|---|---|
| | wella'r ardal.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad fel y'i darparwyd (Opsiwn 2). | |
| **No. 10** | **<u>BUDDSODDIAD MEWN DATBLYGU MICRO-HYDRO</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Tîm Cyfleoedd Adfywio.<br><br>Cyflwynodd Rheolwr Tîm Cyfleoedd Adfywio yr adroddiad sy'n rhoi diweddariad ar y cynnydd ar Astudiaeth Dichonolrwydd Micro-Hydro ar gyfer wardiau Cwm a Llanhiledd, a gofynnodd am gefnogaeth ar gyfer y camau nesaf ar gyfer rhan hon y Prosiect.<br><br>Dywedodd Aelod ei fod yn siomedig na fyddid yn symud ymlaen â'r prosiect a gofynnodd os oedd yn bosibl cymryd cynnal cynllun prawf mewn un lleoliad yn y Fwrdeistref.<br><br>Mewn ymateb dywedodd yr Arweinydd Tîm Cyfleoedd Adfywio ei fod yn gynllun da, fodd bynnag oherwydd costau'r dechnoleg a chostau grid ar hyn o bryd, ni fyddai'r cynllun yn cynnig yr adenillion ariannol y byddai'r Cyngor yn eu disgwyl. Fodd bynnag, os yw'r grwpiau cymunedol ac yn y blaen yn sicrhau cyllid, gellid cynnig astudiaethau dichonolrwydd a gallai'r Cyngor gefnogi'r sefydliadau hynny.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor argymell derbyn yr adroddiad a bod y Cyngor wedi dewis peidio mynd â'r cynlluniau hyn ymlaen ar gyfer eu hymchwilio a'u datblygu ymhellach. Byddai'r prosiectau yn cael eu cau o'r pwynt cyfredol a dim ond os y bydd costau'n gostwng yn sylweddol neu y daw technolegau newydd ar gael y byddir yn edrych ar y mater eto (Opsiwn 1). | |
| **No. 11** | **<u>DULL DARPARU PARTNERIAETH – CANOL TREFI</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Tîm Cyfleoedd Adfywio.<br><br>Cyflwynodd y Rheolwr Tîm Cyfleodd Adfywio yr adroddiad sy'n ceisio cefnogaeth ar gyfer ffurfio Byrddau Ymgynghori Canol Tref ar draws canol trefi Abertyleri, Brynmawr a Glynebwy i gefnogi dull darparu partneriaeth ar gyfer darpariaeth prosiect yn y dyfodol. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Mynegodd Aelod bryder y cafodd Blaenau ei adael allan o'r adroddiad.<br><br>Mewn ymateb esboniodd y Swyddog y cafodd Blaenau ei adael allan oherwydd yr adnoddau presennol o fewn y Tîm. Fodd bynnag, y bwriad yw sefydlu Bwrdd Ymgynghori Canol y Dref i Blaenau yn y dyfodol a dywedodd y Swyddog y byddai'n diwygio'r adroddiad i gynnwys blaenau cyn cyflwyno'r adroddiad i'r Pwyllgor Gweithredol.<br><br>Dilynodd trafodaeth am gynrychiolaeth ar y Byrddau Ymgynghori am bwysigrwydd pawb yn gweithio tuag at y deilliannau a gwelliannau gorau ar gyfer eu trefi.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell, yn ychwanegol at ychwanegu Blaenau, i dderbyn yr adroddiad; a<br><br>• Bod Aelodau yn cefnogi ac yn argymell cymeradwyaeth y Pwyllgor Gweithredol i ffurfio cyfres o fyrddau ymgynghori ar gyfer canol trefi Abertyleri, Brynmawr a Glynebwy yn seiliedig ar ddull gweithredu Bwrdd Ymgynghori Tredegar ac yn cydnabod y drafft gylch gorchwyl **(Atodiad Un).** Bydd y Bwrdd Ymgynghori yn gweithredu fel corff ymgynghori i oruchwylio datblygiad a chyflenwi strategaethau a chynlluniau canol trefi.<br><br>• Bydd pob un yn dechrau gydag aelodaeth fach a ddynodir gan aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Canol Trefi wrth ochr swyddogion. Gellir wedyn ymestyn yr aelodaeth a'i ddatblygu ymhellach wrth i drafodaethau ddatblygu (Opsiwn 1). | |
| **No. 12** | **<u>BLAENRAGLEN GWAITH: 3 TACHWEDD 2021</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i'r Flaenraglen Gwaith ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Craffu Adfywio a gynhelir ar 3 Tachwedd 2021.<br><br>Dywedwyd y byddid yn symud adroddiad Cynllun Creu Lleoedd Tredegar i gyfarfod mis Rhagfyr.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r Flaenraglen Gwaith ar gyfer 3 Tachwedd 2021. | |